MENTER IAITH
BRO MORGANNWG

HYRWYDDO'R
GYMRAEG YM MRO MORGANNWG

PROMOTING THE WELSH LANGUAGE
IN THE VALE OF GLAMORGAN

# MENTER BRO MORGANNWG
# ADRODDIAD BLYNYDDOL 2014

VALE of GLAMORGAN
BRO MORGANNWG

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



## Rhagair gan y Cadeirydd

Croeso i adroddiad blynyddol cyntaf Menter Iaith Bro Morgannwg. Mae bron i flwyddyn a hanner bellach ers i griw gwrdd i drafod sefydlu menter iaith newydd yn y Fro, ar ôl i Fenter Caerdydd dderbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru i wneud hynny.

Un o'r camau pwysicaf wrth ddechrau menter iaith o'r newydd yw i sefydlu seilwaith gadarn a Phwyllgor Rheoli cryf. Mae gan Fenter Bro Morgannwg dros 17 o aelodau i'w Bwrdd Rheoli, ac mae bob un o'r aelodau yn awyddus i gyfrannu tuag at gynyddu proffil a'r defnydd o'r Gymraeg yn Y Fro.

Yn ystod y flwyddyn gyntaf heriol yma, rwy'n falch i adrodd yn ôl bod yna nifer o gamau positif wedi eu cymryd er mwyn datblygu gweithgareddau cyfrwng Cymraeg yn y Fro. Diolch yn fawr i Lywodraeth Cymru, Cronfa'r Loteri Fawr a Chyngor Celfyddydau Cymru am ariannu gweithgareddau a phrosiectau newydd fydd yn cyfrannu tuag at ddatblygu'r Gymraeg ar lefel gymunedol ym Mro Morgannwg. Cydnabyddir hefyd bod staff Menter Bro Morgannwg, Cynghorwyr y Sir ac Uwch Swyddogion y Cyngor wedi cwrdd yn gyson yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, er mwyn trafod buddsoddiad i'r Gymraeg.

I gloi, hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch i Ffion Rhisiart a Sian Lewis am eu gwaith diflino. Bydd eu holl waith, dwi'n siwr, yn dwyn ffrwyth yn 2015!

**Gwenllian Grigg**
**Cadeirydd, Menter Bro Morgannwg**

## Cefndir y Fenter

Yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i ddiddymu Menter y Fro yn Ionawr 2013, sicrhaodd Menter Caerdydd tendor i ddatblygu ac arwain prosiect yn ymwneud â'r Gymraeg ym Mro Morgannwg. Derbyniodd Menter Caerdydd swm o £30,000 gan Lywodraeth Cymru i ddechrau ar y gwaith o gyd-weithio â phartneriaid lleol yn ogystal â'r awdurdod lleol, a chodi proffil a defnydd yr iaith Gymraeg ym Mro Morgannwg. Sefydlwyd Menter Bro Morgannwg yn sgil hynny felly, ac mae gan y Fenter ddau aelod o staff ar hyn o bryd.


Ym mis Gorffennaf 2013, cynhalion ni Asesiad Anghenion er mwyn darganfod pa gyfleoedd cymdeithasol oedd ar gynnig trwy gyfrwng y Gymraeg ym Mro Morgannwg, a mesur y galw am weithgareddau pellach. Derbyniwyd 532 o ymatebion dros gyfnod o lai na thair wythnos, ac fe roedd yr adborth a gasglwyd o'r holiadur hwnnw yn dangos yn glir bod gwendid yn y ddarpariaeth gymdeithasol cyfrwng Cymraeg ar gynnig ym Mro Morgannwg ar hyn o bryd, a bod galw cryf am fwy o wasanaethau a gweithgareddau Cymraeg yn y Sir. Atebodd 88.7% yr hoffen nhw weld cynnydd yn y ddarpariaeth Gymraeg sydd ar gynnig ym Mro Morgannwg.

## Swyddogion

| | |
|---|---|
| **Siân Lewis** | Prif Swyddog |
| **Ffion Rhisiart** | Swyddog Datblygu |

## Incwm

Rydym wedi gweld cynnydd o 91.50% yn incwm y Fenter dros y flwyddyn ddiwethaf. Rydym wedi derbyn grant o £30,000 eto gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2014-15, ac mae gweddill ein cyllideb yn dod o geisio am grantiau allanol. Mae'r grantiau yma ar gyfer sefydlu a chyd-lynu prosiectau fel Gigs Bach y Fro, Gweithgareddau Teulu a Gwasanaeth Gofal Gwyliau Cymraeg.




## Partneriaeth Newydd Rhwng y Gem a Menter Bro Morgannwg

Derbyniwyd y rhan olaf o grant Bwrw Mlaen 2014-15 er mwyn mynd ati i ddatblygu'r elfen o hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar draws y Sir drwy rwydweithiau digidol a phrint, gan sicrhau bod cynnwys Cymraeg yn cael lle teilwng yn y wasg lleol. Y Glamorgan Gem yw papur cymunedol mwyaf Bro Morgannwg, gyda 46,000 o gopïau o'r papur yn cael eu dosbarthu i gartrefi, gweithleoedd a mannau cyhoeddus ar draws y Sir yn wythnosol, a chopi electronig hefyd ar gael i'w ddarllen ar ei gwefan.

Mae'r Fenter yn falch iawn i ddatblygu partneriaeth o'r newydd gyda'r Glamorgan Gem, ac fe fyddwn yn cydlynu a'n cyhoeddi tudalen Gymraeg yn y papur ar ddydd Iau cyntaf pob mis, gan ddechrau ar Ionawr 8fed 2015.


HIGH RESOLUTION BANNER IMAGE NEEDED....

Angharad

Angharad.

WEL, dyna ni am flwyddyn arall: ar ôl yr holl brysurdeb, y prynu, y lapio, yr addurno, y cyngherddau, y coginio a – phew! – o'r diwedd – yr ymlacio – bellach mae'r cyfan ar ben ac mae'n flwyddyn newydd eto.

Gigs Bach Y Fro

CAFWYD noson lwyddiannus tu hwnt yn lansiad 'Gigs Bach y Fro' ddiwedd mis Hydref, gyda gig yng nghwmni Al Lewis a Kizzy Crawford.

MYFYRIWR O'R BONTFAEN YN LLYWYDD AR YR URDD

LLONGYFARCHIADAU mawr i Rhun Dafydd sydd newydd ddechrau ar ei dymor fel Llywydd Urdd Gobaith Cymru.

Ysgol Gyfun Y Bontfaen

E-chlysur

MAE Menter Bro Morgannwg yn darparu gwasanaeth e-bost sy'n hyrwyddo gweithgareddau a digwyddiadau cymdeithasol trwy gyfrwng y Gymraeg i blant, pobl ifanc ac oedolion ym Mro Morgannwg – ee. gigs, gweithgareddau i'r teulu, gwersi nofio i blant, cyrsiau hamdden i oedolion...

Cymdeithas Cymrodorion Y Barri

Cefndir

Dathlu 150 Mlwyddiant y Wladfa Gymreig

Cysylltu

Noson Gomedi

Twitter: @MIBroMorgannwg • Facebook: Menter Bro Morgannwg
Ebost: ffion@menterbromorgannwg • Ffôn: (029) 20689888 • www.menterbromorgannwg.org



## Sefydlu Pwyllgor Rheoli a Fforwm Iaith

Yn ystod ein blwyddyn cychwynnol, rydym ni wedi sefydlu a'n arwain Fforwm Iaith Gymraeg Bro Morgannwg, er mwyn dod â mudiadau a chymdeithasau sy'n gweithredu drwy'r iaith Gymraeg ym Mro Morgannwg at ei gilydd; i adrodd nôl am eu maes gwaith, rhannu syniadau am arfer da ac ystyried cyfleoedd i gyd-weithio. Mae Fforwm Iaith Bro Morgannwg yn cynnwys cynrychiolwyr o Urdd Gobaith Cymru, Merched y Wawr, Coleg Caerdydd a'r Fro, WEA, Mudiad Meithrin, Canolfan Cymraeg i Oedolion Caerdydd a'r Fro, Cyd-lynydd Cymraeg i Oedolion Cyngor Bro Morgannwg, Ysgolion y Sir a Chynrychiolwyr o Gymdeithasau'r Fro.

Ffurfiwyd hefyd Bwyllgor Rheoli o fewn y 18 mis diwethaf, sy'n cynnwys 17 o aelodau erbyn hyn, a 6 ohonynt yn Gyfarwyddwyr y Cwmni. Rôl y Pwyllgor Rheoli ydy sicrhau fod swyddogion cyflogedig y Fenter yn cyflawni eu gwaith dyddiol, cynnig cyngor a chefnogaeth i swyddogion y Fenter a sicrhau fod Menter Bro Morgannwg yn atebol am yr holl wariant cyhoeddus trwy gymeradwyo a goruchwylio gweithdrefnau rheoli cyllid. Mae Pwyllgor Rheoli Menter Bro Morgannwg yn cwrdd 6 gwaith y flwyddyn i drafod datblygiadau'r Fenter.

## Sefydlu Gwefan + Rhwydweithiau Cymdeithasol

Lansiwyd gwefan newydd y Fenter ym mis Gorffennaf 2014 (menterbromorgannwg.org). Mae'r wefan yn cynnwys gwybodaeth am gefndir a gwaith y Fenter, yn ogystal â manylion am ddigwyddiadau a mudiadau Cymraeg eraill ym Mro Morgannwg. Rydym hefyd wedi sefydlu presenoldeb ar y rhwydweithiau cymdeithasol – mae gyda ni dros 450 o ddilynwyr ar Twitter a Facebook erbyn hyn, ac mae'r rhain yn gyfryngau pwysig ac effeithiol i hyrwyddo, rhannu lluniau a newyddion diweddaraf y Fenter.








## Gigs Bach Y Fro

Rydym wedi derbyn grant Datblygu Cynulleidfaoedd o £3,000 gan Gyngor Celfyddydau Cymru i gydlynu cyfres o 6 o ddigwyddiadau celfyddydol a chymdeithasol Cymraeg ym Mro Morgannwg. Mae'r rhaglen sydd ar y gweill yn cynnwys amrywiaeth o gigs, noson gomedi a nosweithiau llenyddol, bydd yn cael eu cynnal ym Mhenarth, Y Barri a'r Bontfaen yn eu tro.

Meddai llefarydd ar ran Cyngor Celfyddydau Cymru:

*"Rydym yn falch iawn i gefnogi'r prosiect hwn. Fe fydd yr arian yma'n caniatau i Fenter Bro Morgannwg adeiladu ar y gwaith maent eisioes yn ei gwneud; i ddeall mwy am yr hyn y mae pobl yn dymuno cael, ac o ganlyniad yn eu galluogi i greu rhaglen amrywiol sydd yn gweddu disgwyliadau'r gymuned."*

Cafwyd noson lwyddiannus tu hwnt yn lansiad Gigs Bach y Fro ddiwedd mis Hydref, gyda gig ym Mhenarth yng nghwmni Al Lewis a Kizzy Crawford. Roedd y Windsor Arms yn orlawn, gyda 90 wedi mynychu, a'r tocynnau i gyd wedi'u gwerthu o flaen llaw. Rydym yn falch iawn bod y prosiect wedi dechrau mor addawol, gyda thrigolion y Sir mor awyddus i weld digwyddiadau celfyddydol cyson yn cael eu trefnu'n lleol, ac fe adeiladwn ar hynny yn 2015 a thu hwnt.

Mae'r Fenter yn gweithio mewn partneriaeth â Chlwb Ifor Bach i gydlynu rhaglen Gigs Bach y Fro, a hoffwn hefyd gydnabod cefnogaeth BOOM Pictures Cymru, Cyngor Tref y Barri, Cyngor Tref Penarth, Cyngor Tref Y Bontfaen a Llanfleiddian a Chyngor Cymuned Dinas Powys.

## Bwrw Mlaen 2014-15

Llwyddwyd i dderbyn £10,000 o gronfa Bwrw Mlaen 2014-15 Llywodraeth Cymru, a hynny i gefnogi sefydlu Gigs Bach y Fro yn ei blwyddyn cyntaf yn ogystal â datblygu'r elfen o hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar draws y Sir drwy rwydweithiau digidol a phrint.

Mae'r cyllid ychwanegol yma wedi ein galluogi i ehangu arlwy Gigs Bach Y Fro yn 2014-15, a'n golygu ein bod am gynnal mwy o nosweithiau yn ystod y flwyddyn i ddod. Byddwn yn cyd-weithio gyda Cwpwrdd Nansi i roi llwyfan i gerddoriaeth werin Gymraeg yn Y Fro, a'n cynnal cyfres o ddigwyddiadau ieuenctid er mwyn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion Chweched Dosbarth a phobl ifanc y Sir i ymwneud â'r Gymraeg y tu allan i oriau ysgol.

Mae mwy o wybodaeth am y prosiectau hyrwyddo a marchnata i'w cael yn yr adrannau isod.

## E-chlysur

Fel rhan o'n prosiect Bwrw Mlaen 2014-15, rydym wedi penodi swyddog fydd yn gweithio yn achlysurol ar ran y Fenter er mwyn cynyddu aelodaeth yr e-chlysur. Mae'r gwasanaeth eisoes wedi ei lansio, gyda bron i 500 o bobl yn derbyn gwybodaeth cyson trwy ebost am ddigwyddiadau Cymraeg ym Mro Morgannwg. Mae'r e-chlysur yn ffynhonnell wych o hyrwyddo gweithgareddau Cymraeg ym Mro Morgannwg, a hynny yn rhad ac am ddim, felly rydym yn awyddus i'w ddatblygu ymhellach dros y misoedd nesaf. Fe fydd y swyddog yn ymweld â gweithleoedd, mudiadau, grwpiau diddordeb, cylchoedd meithrin ac ysgolion, a'r targed yn ystod yr ymgyrch hon bydd i gynyddu'r basddata i dros 1,000 o bobl.

## Gofal Gwyliau Cyfrwng Cymraeg

Yn ystod 2014, rydym wedi cwrdd gyda Chydlynydd Partneriaeth Plant Cyngor Bro Morgannwg er mwyn edrych ar y posibiliadau o sefydlu gwasanaeth gofal gwyliau Cymraeg rheolaidd ym Mro Morgannwg. Yn dilyn cyflwyno Cynllun Busnes a Ffurflen Gais, cafwyd cadarnhad ym mis Rhagfyr 2014 ein bod wedi llwyddo i dderbyn cyllid o £9,000 tuag at sefydlu darpariaeth gofal o fis Chwefror 2015 ymlaen.

Byddwn yn darparu cynllun gofal yn Ysgol Nant Talwg yn ystod pob gwyliau ysgol (ag eithrio'r Nadolig), o ddydd Llun i ddydd Gwener, 8.30am-5.30pm. Bydd y ddarpariaeth ar gael i bob plentyn sy'n derbyn addysg cynradd Cymraeg yn y Fro. Bydd hwn yn wasanaeth allweddol o bwysig i rieni sydd yn gorfod parhau i weithio yn ystod cyfnodau o wyliau ysgol, a gyda dros 90% o ddisgyblion ysgolion Cymraeg y Sir yn dod o gartrefi di-Gymraeg, bydd hefyd yn cynnig cyfleoedd hollbwysig i'r plant i barhau i ddefnyddio ac ymarfer eu Cymraeg y tu allan i dymor yr ysgol.

Byddwn yn edrych i gyflogi oddeutu 3 o staff a denu gwirfoddolwyr i gynorthwyo gyda'r gwasanaeth.



## Cyllid i Ariannu Gwasanaethau Teulu ym Mro Morgannwg

Rydym wedi sicrhau grant o £5,000 o gronfa Arian i Bawb y Loteri Fawr, er mwyn dechrau datblygu rhaglen o wasanaethau i blant oed meithrin a'u teuluoedd ym Mro Morgannwg. Gyda'r twf mewn addysg Gymraeg a welwyd yn Y Fro yn ddiweddar, a 29.39% o blant 3-15 oed y Sir yn siaradwyr Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 2011, mae'r galw yno am gynyddu'r ddarpariaeth ac mae'n hollbwysig bod plant, pobl ifanc ac oedolion yn cael y cyfle i gymdeithasu fel teulu drwy'r iaith Gymraeg.

Bydd y gweithgareddau fydd yn cael eu trefnu fel rhan o'r prosiect hwn yn amrywio o gyrsiau wythnosol i blant oed meithrin i ddigwyddiadau hwyliog i'r teulu cyfan, gan gynnwys gwersi nofio wythnosol i fabanod a phlant ifanc, clwb rygbi a gymnasteg wythnosol i blant 3 oed+, a sesiynau chwarae a chelf a chrefft yn ystod gwyliau ysgol. Byddwn yn gweithio mewn partneriaeth ag Adran Chwaraeon yr Urdd i gydlynu'r rhaglen, ac fe fydd y gweithgareddau yn dechrau ym mis Mawrth 2015.

## Cyngor Bro Morgannwg a Menter Bro Morgannwg

Un o'r targedau rydym wedi ei dderbyn oddi wrth Llywodraeth Cymru ydyw i ddechrau trafodaethau gyda Chyngor Bro Morgannwg ynghylch cyd-weithio ar wahanol brosiectau ac i sicrhau unrhyw arian cyfatebol posibl oddi wrth yr awdurdod lleol. Dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi mynychu nifer o gyfarfodydd gyda chynrychiolwyr o'r Cyngor er mwyn trafod hyn ymhellach, gyda'r nod o gryfhau safle'r Gymraeg o fewn y Sir.

Rydym wedi mynychu cyfarfodydd Fforwm a chyfrannu at y broses o ddrafftio y WESP 2014-17 – sef dogfen strategaethol sy'n trafod a'n cynllunio y defnydd o'r Gymraeg mewn Addysg (Welsh in Education Strategic Plan).

Cafwydd cyfarfod gyda'r Cynghorydd Christopher Elmore ac Uwch Swyddogion y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn, a daethpwyd i'r casgliad yn y cyfarfod hwnnw mai'r cam nesaf ymlaen byddai i edrych ar ail-ddyrannu cyllidebau o fewn rhai adrannau allweddol penodol (gan gynnwys Hamdden, Chwarae a Digwyddiadau), er mwyn sicrhau bod dyraniad teg o'r cyllidebau yma yn cael eu penodi i ddatblygu gwasanaethau Cymraeg.

Yn deillio o'r cyfarfod gyda'r Cynghorydd Christopher Elmore, rydym wedi cytuno i gwrdd yn chwarterol gyda'r Cynghorydd ac Uwch Swyddogion er mwyn sicrhau trafodaethau cyson ynghylch cyfraniad Cyngor Bro Morgannwg tuag at ddarparu gwasanaethau a gweithgareddau Cymraeg.

Dyma'r tro cyntaf i Gyngor Bro Morgannwg gytuno i gwrdd yn rheolaidd gyda phartneriaid i drafod y Gymraeg. Mae hwn yn gam positif ymlaen ac edrychwn ymlaen i ddatblygu ein partneriaeth â Chyngor Bro Morgannwg ymhellach yn 2015.

Menter Bro Morgannwg, 42 Lambourne Crescent, Parc Busnes Caerdydd, Llanisien, Caerdydd CF14 5GG
Cwmni Cyfyngedig drwy warant 8867706